# DINAS A SIR ABERTAWE

## COFNODION Y PWYLLGOR SAFONAU

## A GYNHALIWYD YN YSTAFELL BWYLLGOR 5, NEUADD Y DDINAS, ABERTAWE DYDD GWENER, 3 MEHEFIN 2016 AT 9.35 AM

**YN BRESENNOL:** Bu M Howells(Cadeirydd) yn llywyddu

| **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** | **Y Cynghorydd** |
|---|---|---|
| J A Hale | C E Lloyd | L G Thomas |

| **Aelodau Cyfetholedig** | **Aelodau Cyfetholedig** |
|---|---|
| J Burgess | G Evans |
| P Crayford | M Williams |

**Swyddogion**

| | |
|---|---|
| Huw Evans | Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd |
| Allison Lowe | Swyddog y Gwasanaethau Democrataidd |
| Tracey Meredith | Dirprwy Bennaeth Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd/Dirprwy Swyddog Monitro |

**Apologies for Absence**

Independent Member(s): J Gomes

1 **DATGELIADAU O FUDDIANNAU PERSONOL A RHAGFARNOL**

Yn unol â darpariaethau'r Côd Ymddygiad a fabwysiadwyd gan Ddinas a Sir Abertawe, ni ddatganwyd unrhyw fuddiannau.

2 **COFNODION**

**PENDERFYNWYD** cytuno bod cofnodion y Pwyllgor Safonau a gynhaliwyd ar 3 Mehefin 2016 yn gofnod cywir.

Materion yn codi:

Cofnod 34 - Adborth ar Gyfarfodydd Blynyddol ag Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol, y Prif Weithredwr a Chadeiryddion Pwyllgorau.

Atgoffodd y Cadeirydd y pwyllgor am y cam gweithredu o'r cyfarfod blaenorol mewn perthynas ag Aelodau Annibynnol y Pwyllgor Safonau sy'n mynd i gyfarfodydd Cyngor Cymuned/Tref fel ymarfer casglu tystiolaeth.

**PENDERFYNWYD** y dylai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd a Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd/Dirprwy Swyddog Monitro ddrafftio dogfen sy'n amlinellu cylch gwaith a chwmpas yr ymarfer cyn gynted â phosib.

3 **CÔD YMDDYGIAD ENGHRAIFFT NEWYDD.**

Rhoddodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd / Dirprwy Swyddog Monitro y diweddaraf i'r pwyllgor mewn perthynas ag adroddiad y Côd Ymddygiad Enghreifftiol Newydd a gyflwynwyd i'r cyngor ar 19 Mai 2016.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

4 **FFRAMWAITH MOESEGOL LLYWODRAETH LEOL - DARPARIAETH STATUDOL NEWYDD.**

Cyflwynodd Dirprwy Bennaeth y Gwasanaethau Cyfreithiol a Democrataidd / Dirprwy Swyddog Monitro adroddiad yn dilyn ymgynghoriad technegol a gynhaliwyd rhwng 30 Tachwedd 2015 a 10 Ionawr 2016, ar Reoliadau Llywodraeth Leol (Pwyllgorau Safonau, Ymchwiliadau, Gollyngiadau ac Atgyfeirio) (Cymru) (Diwygio) 2016 a ddaeth i rym ar 1 Ebrill 2016.

Diwygiodd y Rheoliadau 2016 uchod y rheoliadau canlynol:

- Rheoliadau Pwyllgorau Safonau (Cymru) 2001;
- Rheoliadau Ymchwiliadau Llywodraeth Leol (Swyddogaethau Swyddogion Monitro a'r Pwyllgor Safonau) (Cymru) 2001;
- Rheoliadau Awdurdodau Lleol (Caniatáu Gollyngiadau) (Cymru) 2001.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad yn cael ei nodi.

5 **LLYFR ACHOSION CÔD YMDDYGIAD OMBWDSMON GWASANAETHAU CYHOEDDUS CYMRU (ER GWYBODAETH).**

Rhoddodd y Cadeirydd y diweddaraf ar gyhoeddiadau mwyaf diweddar Llyfrau Achosion Côd Ymddygiad Ombwdsmon Gwasanaethau Cyhoeddus Cymru fel a ganlyn:

- Rhifyn 6 - Hydref 2015;
- Rhifyn 7 - Ionawr 2016.

**PENDERFYNWYD** y byddai'r adroddiad a'r atodiadau yn cael eu nodi.

6 **Y BROSES AR GYFER PENODI AELOD ANNIBYNNOL I'R PWYLLGOR SAFONAU (AR LAFAR).**

Rhoddodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd adroddiad ar lafar ar y Broses ar gyfer Penodi Aelod Annibynnol i'r Pwyllgor Safonau. Byddai'n hysbysebu dwy swydd, un i ddechrau oddeutu mis Medi a'r llall i ddechrau oddeutu mis Rhagfyr 2016.

Cynhaliwyd trafodaeth ynglŷn â'r broses flaenorol a dilynwyd ar gyfer penodi Aelodau Annibynnol yn ogystal â'r honiad a fyddai'n bosib gwella'r broses hon.

Achubodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ar y cyfle i ddiolch i'r Cadeirydd am ei arweinyddiaeth yn ystod ei gyfnod yn y swydd a dymunodd yn dda iddo am y dyfodol.

**PENDERFYNWYD** y dylai Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd ddechrau'r broses o hysbysebu ar gyfer yr Aelodau Annibynnol yn haf 2016.

7 **CYNLLUN GWAITH 2016 - 2017.**

Darparodd Pennaeth y Gwasanaethau Democrataidd Gynllun Gwaith ar gyfer 2016-2017:

| **Dyddiad** | **Mater** |
|---|---|
| I'w Gadarnhau | Adroddiad Blynyddol y Pwyllgor Safonau |
| I'w Gadarnhau | Cyfarfodydd blynyddol gydag Arweinwyr Grwpiau Gwleidyddol a Chadeiryddion Pwyllgorau |
| 2 Rhagfyr 2016 | Adolygiad o'r Gyfundrefn Gollyngiad |
| Pan gyhoeddir | Llyfr Achosion Côd Ymddygiad OGCC |
| I'w Gadarnhau | Hyfforddiant |

**PENDERFYNWYD** nodi cynnwys yr adroddiad.

Diolchodd y Cadeirydd i'w gydweithwyr am eu cymorth yn ystod ei gyfnod yn y swydd.

Daeth y cyfarfod i ben am 10.25 am

**CADEIRYDD**